# GRIFFITHS, PETER HUGHES (1871 - 1937), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur



**Enw:** Peter Hughes Griffiths
**Dyddiad geni:** 1871
**Dyddiad marw:** 1937
**Priod:** Annie Jane Ellis (née Davies)
**Priod:** Mary Griffiths (née Howell)
**Rhiant:** Anna Griffiths
**Rhiant:** John Griffiths
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 6 Awst 1871 yn Ffynnon Ynyd, Glanyfferi, Sir Gaerfyrddin, mab y Parch. John Griffiths ac Anna ei briod. Cafodd ei addysg ym Mharcyfelfed, Caerfyrddin, a bu mewn siop yn Aberpennar, Morgannwg. Dechreuodd bregethu yno a chafodd addysg bellach yn ysgol y Gwynfryn a Choleg Trefeca. Bu'n weinidog cynorthwyol yn eglwys Bresbyteraidd Saesneg Waterloo, Lerpwl, cyn ei ordeinio yn sasiwn Cwmbwrla, 1900. Bugeiliodd eglwys y Crug Glas, Abertawe, am ddwy flynedd; symudodd i Charing Cross, Llundain, yn 1902, ac yno y bu weddill ei oes. Pregethai'n wreiddiol, a nodweddid ei weinidogaeth gan asbri ysbrydol. Priododd (1) Mary Howell o Ben-coed, (2) Annie Jane, gweddw T. E. Ellis, A.S.. Ysgrifennodd lawer i'r cylchgronau Cymraeg, a cheir detholiad o'i ysgrifau yn *Llais o Lundain* 1912. Golygodd *Gweithiau Gwilym Teilo* (d.d.), ac ymddangosodd *Cofiant W. E. Prytherch* yn 1937, ar ôl ei farw. Bu farw 1 Ionawr 1937, a'i gladdu ym mynwent Salem, Pencoed.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1938, 193

gwybodaeth gan ei frawd, y Parch. V. G. Griffiths

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 66273576

Wikidata: Q20734133

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu